

1. Trosolwg

Rydym ni eisiau i bobl ledled y Deyrnas Unedig gael mynediad at wasanaethau band eang a symudol gwell, fel bod pawb yn elwa o'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cynnig. Mae hynny'n golygu hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau gwell a gwneud yn siŵr bod darpariaeth rhwydweithiau'n ymestyn cyn belled â phosib - hyd yn oed i'r ardaloedd anodd eu cyrraedd.

Ym mis Mawrth 2018, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth ar 'rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol' (USO) band eang sy'n rhoi hawl i gartrefi a busnesau ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy. Rydym ni'n croesawu'r USO band eang, rhan bwysig o'r gwaith o wella mynediad at wasanaethau band eang ledled y Deyrnas Unedig. Rydym ni wedi gweithio'n gyflym i'w roi ar waith, fel bod pobl yn gallu gofyn am gysylltiad ac yn gallu derbyn y gwasanaethau hyn cyn gynted â phosib.

Ar hyn o bryd rydym yn penodi BT a KCOM yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ac yn gosod yr amodau perthnasol wrth iddyn nhw ddarparu'r cysylltiadau a'r gwasanaethau USO.

Ein penderfyniad – yn gryno

Mae BT a KCOM wedi cael eu penodi'n Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Byddan nhw'n gyfrifol am ystyried ceisiadau am gysylltiadau USO ac am adeiladu'r seilwaith fydd ei angen er mwyn darparu'r gwasanaeth o fewn cyfnod rhesymol. KCOM fydd y darparwr gwasanaeth cyffredinol yn ardal Hull, a bydd BT yn darparu'r gwasanaeth yng ngweddill y DU.

Mae modd i bobl sy'n methu cael gwasanaeth band eang teilwng a fforddiadwy ofyn am gysylltiad USO. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn diffinio cysylltiad teilwng fel un sydd â chyflymder llwytho i lawr sy'n 10Mbit yr eiliad neu fwy, a chyflymder llwytho i fyny sy'n 1Mbit yr eiliad neu fwy.

Bydd gan y darparwyr gwasanaeth cyffredinol 30 diwrnod i gadarnhau fod rhywun yn gymwys. I wneud hyn, byddan nhw'n cadarnhau'r canlynol am leoliad y defnyddiwr:

- ei fod yn gartref neu fusnes;
- nad oes ganddo fynediad at fand eang teilwng a fforddiadwy yn barod;
- nad yw'n rhan o gynllun cyhoeddus yn y 12 mis nesaf;
- nad yw'n costio mwy na £3,400 i'w cysylltu (fel y nodir yn y ddeddfwriaeth). Os yw'r gost yn fwy na £3,400, bydd cyfle i dalu costau ychwanegol y gwaith o osod cysylltiad USO neu ddefnyddio technoleg amgen, fel lloeren, y tu allan i'r USO.
- Bydd gan bobl hawl i ofyn am gysylltiad USO os oes ganddyn nhw fynediad at wasanaeth cyffredinol sy'n costio dros £45 y mis¹ yn unig.

Bydd Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol yn gorfod cadw at dargedau heriol wrth adeiladu rhwydweithiau. Mae'n rhaid i BT ddarparu pob cysylltiad USO cyn gynted â phosib, a darparu 80% ohonynt o fewn 12 mis, 95% ohonynt o fewn 18 mis, a 99% ohonynt o fewn 24 mis ar ôl derbyn archeb USO sydd wedi'i chadarnhau. Mae'n rhaid i KCOM ddarparu'r cysylltiad USO cyn gynted â phosib, ac o fewn 12 mis fan bellaf ar ôl i rywun wneud archeb, oni bai fod amgylchiadau anarferol yn gwneud hynny'n anoddach.

Bydd cwsmeriaid USO yn talu'r un prisiau â gweddill y DU. Mae'n rhaid i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol gynnig cysylltiadau a gwasanaethau am yr un pris â'r gwasanaethau cyfatebol y maen nhw'n eu cynnig i gwsmeriaid sydd ddim yn rhan o'r USO. Mae BT hefyd wedi ymrwymo i gynnig o leiaf un gwasanaeth a chysylltiad band eang sy'n cyrraedd manyleb yr USO am ddim mwy na £45 y mis.² Mae hyn yn ffordd arall o sicrhau gwasanaeth fforddiadwy i gwsmeriaid BT, gan gynnwys y rheini sy'n cael band eang drwy wasanaeth mynediad di-wifr sefydlog.

Bydd cwsmeriaid USO yn cael gwasanaeth o'r un ansawdd â chwsmeriaid sydd ddim yn rhan o'r USO. Mae'n rhaid i'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol gael trefn i ddelio â chwynion a bydd gan gwsmeriaid USO fynediad rhad ac am ddim at Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod wedi'u cymeradwyo gan Ofcom.

Rhaid i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol ddarparu adroddiadau perfformiad a chadw cofnodion. Mae hyn er mwyn helpu i fonitro eu bod yn cydymffurfio â'r amodau, ac i allu archwilio unrhyw hawliadau yn briodol.

Bydd modd gwneud cais am gysylltiad USO o 20 Mawrth 2020. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol wneud newidiadau i'w prosesau a'u systemau ac i baratoi ar gyfer gwneud cysylltiadau.

Cefndir

- 1.1 Mae band eang teilwng yn wasanaeth hanfodol erbyn hyn. Mae angen iddo fod ar gael ym mhob rhan o'r DU – gan gynnwys cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd.
- 1.2 Mae nifer yr adeiladau sy'n methu cael band eang teilwng yn gostwng, ond mae tua 600,000 o adeiladau, neu 2%, yn dal yn methu cael cysylltiad teilwng. Gyda mynediad at fand eang cyflymder uwch yn gwella, a thechnoleg sefydlog a gwasanaethau di-wifr sefydlog gwell, mae'r rhif hwn yn siŵr o ostwng.
- 1.3 Mae Ofcom yn gyfrifol am roi'r USO ar waith er mwyn helpu'r tai a'r busnesau sydd yn dal heb fynediad at fand eang teilwng. Dyma ein prif amcanion yn hyn o beth:
 - darparu'r USO cyn gynted â phosib, fel bod defnyddwyr yn elwa cyn gynted â phosib;
 - sicrhau bod unrhyw ddarparwr penodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n cyflawni gofynion yr USO; a
 - sicrhau bod y gost o ddarparu, ac o ganlyniad yr effaith ar y diwydiant a defnyddwyr, mor isel â phosibl.
- 1.4 Ym mis Mehefin 2018, gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau oedd â diddordeb mewn cael eu penodi, ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Ym mis Medi 2018, gwnaethom ymgynghori ynghylch rheoliadau dynodi drafft a gwnaethom gynnig mai dynodi'n uniongyrchol yw'r broses gyflymaf a mwyaf effeithiol o benderfynu pwy ddylai fod yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Yn ystod tymor yr hydref yn 2018, gwnaethom

¹Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant CPI

² Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant CPI

asesu wyth datganiad o ddiddordeb gan gwmnïau oedd â diddordeb mewn bod yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol.³

- 1.5 Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaethom gynnig penodi BT a KCOM a gwnaethom ymgynghori ynghylch rhwymedigaethau i'w gosod ar y Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Daeth amrywiaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daethant gan ddarparu Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, darparwyr cyfathrebiadau eraill, cyrff defnyddwyr, grwpiau eiriolaeth, cyrff o'r diwydiant, a sefydliadau ac unigolion eraill. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'n cynigion ni gan fwyaf. Ond, codwyd rhai pryderon gan ddarparwyr, yn enwedig am y cyfnod darparu a gweithredu arfaethedig, a'r cynigion ynglŷn â phris a gwasanaeth fforddiadwy.

Ein penderfyniad

- 1.6 Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried y sylwadau ar ein cynigion, rydym ni wedi penderfynu dynodi BT a KCOM yn Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol a gosod amodau arnynt er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang teilwng a fforddiadwy o fewn amser rhesymol ac yn gallu derbyn gwasanaethau cystal â'r gwasanaethau sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.
- 1.7 Rydym ni wedi gwneud rhai newidiadau i'r cynigion a wnaed ym mis Rhagfyr 2018 er mwyn ystyried y sylwadau a ddaeth i law. Yn benodol, rydym ni wedi troi'r cyfnod darparu a roddwyd i BT yn gyfres o ofynion gwahanol sy'n adlewyrchu'r amser mae'n ei gymryd i gysylltu adeiladau mewn lleoliadau heriol ac sy'n cyflawni ein hamcan cyffredinol o ddarparu'r USO cyn gynted â phosib, fel bo cwsmeriaid yn elwa cyn gynted â phosib. Mae'r targedau hyn yn rhoi rhagor o eglurder ynglŷn â phryd y bydd adeiladau yn debygol o gael eu cysylltu, ac maent yn debygol o arwain at gyfran uwch o adeiladau yn cael eu cysylltu o fewn cyfnod rhesymol.
- 1.8 Er mwyn sicrhau bod yr USO yn fforddiadwy, rydym ni'n mynnu cael prisio unffurf fel nad yw cwsmeriaid mewn ardaloedd USO yn talu mwy na chwsmeriaid mewn ardaloedd eraill am yr un gwasanaeth. Ond, rydym ni wedi penderfynu nad oes angen cap diogelu ar gysylltiadau a gwasanaethau USO er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy oherwydd mae mwyafrif y prisiau yn fforddiadwy ar hyn o bryd. Mae BT wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau am £45 y mis ar y mwyaf, yn unol â'r cap diogelu y gwnaethom ei gynnig yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018. Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu prisiau'r gwasanaethau band eang a pha mor fforddiadwy ydynt, a byddwn yn gosod cap diogelu yn y dyfodol os bydd angen gwneud hynny.
- 1.9 Byddwn yn ymgynghori ynghylch rheoliadau ariannu yn Hydref 2019. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer unrhyw iawndal y bydd y Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol yn ei hawlio am ddarparu'r USO ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai cronfa iawndal yn gweithio (pwy fyddai'n cyfrannu ac ym mha gyfrannau, a sut fyddai'r arian yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu). Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad i ddod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn dechrau 2020.

³ Yr 8 darparwr a ddangosodd diddordeb mewn bod yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol oedd Airband, Bentley Walker, Broadway Partners, BT, Hyperoptic, KCOM Quickline a Viasat.